

Cynllun Croeso Beicwyr a Cherddwyr Croeso Cymru



Croeso
Cymru



Gwobr Groeso Beicwyr a Cherddwyr

Beth yw'r Wobr?

Mae beicwyr a cherddwyr o natur wahanol, ond nid mor wahanol â hynny. Fel y rhan fwyaf o ymwelwyr mae arnynt angen gwybod fod croeso iddynt aros â chi, fod croeso iddynt gerdded trwy'ch drws ffrynt a bod croeso iddynt deimlo'n gartrefol hefyd. Dyna'n union mae'r Cynllun Beicwyr a Cherddwyr yn ei wneud. Mae'n rhoi gwybod iddynt y cânt eu gofalu amdanynt yn dda, fod gennych bopeth sydd arnynt ei angen ac na fyddwch yn eu dwrdio am wisgo esgidiau mwdlyd. Does dim ond angen i chi osod y logo ar eich gwefan, ger y drws ffrynt, y drws cefn neu'n unrhyw le arall y byddant yn sylwi arno.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

I ddechrau, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhan o gynllun sêr graddio Croeso Cymru. Bydd angen i chi fodloni'r meini prawf sydd fymryn yn wahanol ar gyfer llety hunan ddarpar, busnesau wedi'u gwasanaethu a meysydd carafannau. Gall eich cynghorydd safon Croeso Cymru drafod hyn â chi yn ystod eich ymweliad graddio. Y newyddion da yw nad oes unrhyw gostau ychwanegol i dderbyn gwiriad gogyfer â'r wobwr hon, felly nid oes gennych unrhyw beth i'w golli.

I wneud cais, edrychwch ar y dogfennau meini prawf manwl sydd ar gael ar-lein, yna cwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais berthnasol gogyfer â'ch math chi o fusnes.

Cliciwch yma i wneud cais ar-lein

Os hoffech ddysgu rhagor am y cynllun hwn, neu am y cynllun graddio'n gyffredinol, cysylltwch â ni ar e-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk neu roi galwad ffôn i ni ar 0845 010 8020.

**Beicio neu Gerdded.
Y naill ffordd neu'r
llall yng Nghymru,
byddwch ar eich
ennill.**



Mae beicio a cherdded o werth mawr i Gymru.

Rydym yn denu dros 7 miliwn o bobl bob blwyddyn sy'n hoffi defnyddio dwy droed neu ddwy olwyn. Maent yn aros yn ein llefydd gorau ac yn bwyta llawer hefyd. Pe baech yn mynd o'i chwmpas hi'n iawn, gallech chi fod â chyfran yn hyn. Felly buom o amgylch Cymru'n chwilio am y mannau hynny ble mae beicwyr a cherddwyr yn cysgu (ac yn cysgu eto) gan fod y llefydd hynny wedi'i deall hi. **A dyma maent yn ei wneud.**



Cyfleusterau a gwasanaethau – Y pethau angenrheidiol

Bydd angen i chi ddarparu:

1. Gofod ar wahân i sychu dillad ac esgidiau awyr agored, fel y gall dillad sychu dros nos.
2. Gofod dan do y gellir ei gloi i gadw beiciau a bagiau cyfrwy dros nos yn ddiogel, gyda mynedfa ddi-rwystr.
3. Mynediad at bwynt dŵr er mwyn golchi beiciau a dillad awyr agored.
4. Pecyn argyfwng i drwsio beiciau a thyllau mewn teiars. Mae'r eitemau a awgrymir yn cynnwys: lifers teiar, pecyn trwsio twll, iraid, pwmp ar gyfer falfiau Presta a Schrader.
5. Pecyn cymorth cyntaf wrth law sydd yn addas i faint y busnes.
6. Crafwyr esgidiau a/neu fynediad i gyfleusterau gyda chyflenwad dŵr er mwyn glanhau esgidiau a dillad awyr agored. Dylai'r cyflenwad dŵr fod wedi'i labelu'n glir ac wedi'i wahanu oddi wrth unrhyw dapiau dŵr yfed.
7. Cyfleusterau golchi dillad, gwasanaeth golchi dillad neu fanylion y golchdy agosaf.

Hynny yw, lle i sychu, storfa dan glo, lle i olchi beiciau, pecyn offer a phecyn cymorth cyntaf. Beth am inni graffu ar rai esiamplau o fusnesau sydd eisoes yn rhan o Gynllun Croeso Beicwyr a Cherddwyr Croeso Cymru.

Y Lle Sychu

Ydyn, mae'r criw hwn yn gallu gwlychu a mynd yn fudr iawn. Byddant yn bwyta pryd da, yn cysgu'r nos ac erbyn y bore, yn barod i fynd ati eto.

Gall gofod sychu fod y tu mewn neu'r tu allan i'ch prif adeilad. Y tu mewn, mae rhai busnesau'n gwneud defnydd o'r hyn sydd ganddynt y tu ôl i'r llenni, fel pe tae. Maent yn cymryd y dillad gwlyb a budur oddi wrth eu cwsmeriaid a fydd yna'n ymddangos fore trannoeth wedi'u golchi, eu sychu ac yn barod ar gyfer diwrnod caled arall. Mae hwn yn wasanaeth gwych (ond gwnewch yn siŵr fod y gwestai eisiau iddynt gael eu golchi yn gyntaf wrth gwrs).



Bythynnod Cwm Sion, Pontardawe



Cystal ag unrhyw beth

Efallai y byddai'n well gennych ddarparu gofod sychu, rhyw fath o olchdy hunan wasanaeth. Dyma esiampl o hyn wedi'i wneud y tu allan i'r prif adeilad trwy wneud defnydd o hen gwt.

Y tu allan



Gelli Goch, Coed y Brenin

Y tu mewn



Gelli Goch, Coed y Brenin



Er nad yw peiriant golchi a pheiriant sychu'n angenrheidiol, bydd arnoch angen lle i hongian dillad i sychu fel eu bod yn barod yn gynnar fore trannoeth. Gallai'r peiriant golchi a'r peiriant sychu fod yn eich cegin eich hun (y tu ôl i'r llenni) ond mae arnoch angen lle i hongian dillad gwlyb i sychu dros nos o hyd, ac felly byddai gwresogydd neu ddadleithydd hefyd yn ddelfrydol.

Dyma fwthyn lle adeiladwyd ystafell sychu y tu allan, a dyna esiampl wych yw'r lle. Mae ganddo do gwair hyd yn oed. Sylwch fod dau ddrws, yr un ar y dde yw'r ystafell sychu ac mae'r un ar y chwith ar gyfer cadw beiciau dan glo. Peidiwch ag anghofio, mae beicwyr a cherddwyr yn dueddol o ofalu am yr amgylchedd ac yn hoff o bethau a busnesau cynaliadwy. Mae'r un yma'n wych.

Y tu mewn – gyda bachau



Pob ffotograff: Bythynnod Cwm Sion, Pontardawe

Ar y to



Hefyd, maent wedi cynnwys system awyru naturiol a gwresogydd hefyd. Efallai fod gennych reiddiadur, os nad oes, yn aml, gall rhywbeth syml weithio'n berffaith.

Y tu allan



Opsiynau eraill

Os nad oes gennych y gofod na'r amser i adeiladu eich cyfleusterau sychu eich hun (waeth inni gyfaddef, nid oes gan lawer ohonom), gallwch fod yn ddyfeisgar. Dyma beth mae un busnes yn ei wneud. Maent yn hongian dillad i sychu mewn ystafell a wresogir yn y dull hen fasiwn.



Pob ffotograff: Coed Cae, Dolgellau



Awgrym defnyddiol Arbed eich carpedi!

Dylech wneud i bobl deimlo'n gyfforddus os byddant yn cerdded i mewn yn fwd drostynt, ond does dim o'i le ar geisio arbed eich carpedi. Mae rhai busnesau'n gosod crafwr esgidiau wrth y drws ffrynt, a mat dal baw ar yr ochr arall. Mae gan y llefydd hyn garpedi glân.



Storfa dan glo

Ers talwm, byddai rhai beicwyr yn arfer cysgu wrth ymyl eu beiciau'n ystod y nos ar wyliau. Erbyn hyn, mae beiciau fel arfer yn eitemau drud a dyna pam fod arnom angen storfeydd dan glo. Mae ystafelloedd gwely ar gyfer pobl a'r storfa dan glo ar gyfer beiciau. Mae opsiynau fyrdd ar gyfer creu storfa dan glo, a'r ystod yn mynd o gael cist dan glo i adeiladu storfa dan glo bwrpasol yn yr ardd. Y peth pwysig wrth gwrs yw fod y beic yn ddiogel, fel y gall y beiciwr gysgu'n dawel.



Bythynnod Cwm Sion, Pontardawe



Cystal ag unrhyw beth

Mae'r unedau hyn sy'n cloi, yn fwy na thebyg, gystal ag unrhyw beth sydd ar gael. Maent wedi'u gwneud o ddur ac yn daclus ond heb fod yn mynd â gormod o le. Maent yn ddrud, ond yn werth y costau o ystyried pris beic mynydd o'r radd flaenaf wrth gwrs. Mae rhai'n derbyn darnau arian hefyd felly fe gaech eich arian yn ôl pe baech chi'n dymuno codi tâl am gadw beiciau. Mae'n well gennym ni weld hynny'n cael ei gynnig am ddim fodd bynnag, y cwbl yn rhan o'r gwasanaeth. Mae'r unedau hyn yn cadw un beic yn fertigol ond mae rhai mwy ar gael hefyd. Mae'r dur yn drwchus, yn gwrthsefyll y tywydd, ac ar y tu mewn, fel arfer mae clamp olwyn i ddal y beic yn ei le. Gall beicwyr hefyd roi eu helmedau a'u bagiau i hongian ar y bachau tu mewn. Taclus iawn.



Gwersyll Fforest Cwmcarn

Opsiynau eraill

Mae opsiynau eraill hefyd. Weithiau, bydd gan fusnesau megis ffermydd eisoes storfa ddur diogel ar y safle y gellid ei defnyddio i gadw beiciau dan glo. Os gwnewch hynny, gwnewch yn siŵr ei bod yn edrych yn dda y tu allan a'r tu mewn. Mae gan y storfa hon resel feiciau ar y tu mewn wedi'i gosod ar y wal hyd yn oed. Am feddylgar!



Fferm Ty'n Cellar, Margam



Fferm Ty'n Cellar, Margam

Gallwch hefyd ddefnyddio sied sydd eisoes yn bod neu adeiladu un o'r newydd. Roedd gan berchennog y bwthyn hunan arlwyo hwn y gofod a'r sgiliau, felly fe adeiladodd storfa hyfryd yr olwg ei hun. Mae'n edrych yn wych, yn gweddu â gweddill y tŷ ac mae ganddo hyd yn oed fachau ar gyfer helmedau ac offer cerdded. O ie, a bwrdd picnic defnyddiol y tu allan iddo hefyd. Lle braf am ddiod oer ar ôl taith gerdded neu daith feicio hir.



Bythynnod Cwm Sion, Pontardawe

Awgrym defnyddiol – Dalwyr beic

Cofiwch, fydd beicwyr ddim wastad eisiau cadw eu beiciau dan glo yr eiliad y byddant yn dychwelyd o ddiwrnod caled ar y pedalau. Efallai na fyddent ddim ond eisiau rhywle i barcio'u beic am ychydig amser, neu hyd yn oed wneud ychydig o waith cynnal a chadw pe tae angen. Gallech brynu daliwr beic petaech yn dymuno gwneud, neu i fod yn gynaliadwy, gallech wneud defnydd o unrhyw goed sydd yn eich meddiant. Dyma ddaliwr beic gwych wedi'i wneud o foncyff mawr.




Bythynnod Cwm Sion, Pontardawe



Coed Cae, Dolgellau

Awgrym defnyddiol

Os ydych yn defnyddio eich cyfleusterau eich hun i gadw beiciau dan glo yna gwnewch yn siŵr na ellir tynnu'r cloeon gyda sgrïwdreifer trwy ddefnyddio piniau na ellir eu tynnu. Gallwch weld y rhain yn y lluniau isod.



Bryn Llewelyn, Betws y Coed

Y Pwynt Dŵr

Mae mynediad at bwynt dŵr yn bwysig. Mae angen i esgidiau gael eu golchi. Mae beiciau angen eu golchi hefyd. Gall pwynt dŵr fod yn ddim ond ardal ble rhoir pibell ddŵr neu olchwr pŵer, gan amlaf wedi'i chuddio o'r golwg yn y cefnau. Does dim rhaid iddi fod, ond maent yn edrych yn well o gael eu lleoli o'r neilltu.

Bike wash
Tokens are
AVAILABLE from
the kitchen or
main office.

Caban Bryn Bettws, Parc Coedwig Afan

BIKE WASH
Tokens
Available
from Office

Caban Bryn Bettws,
Parc Coedwig Afan

BIKE WASH
& DRINKING
WATER



Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

Gwersyll Fforest Cwmcan

Cystal ag unrhyw beth

Dyma esiampl wych. Mae'r busnes twristiaeth hwn yn manteisio'n llawn ar ddisgyrchiant a'r glaw y byddwn yn ei gael yng Nghymru. Maent yn ei gasglu, yn ei gadw mewn casgen ddŵr fwy ac yna'n gadael i westeion ddefnyddio ein dŵr glaw ni i lanhau eu hoffer. Mae digonedd o law yng Nghymru ac mae'n law glanach yn ôl pob sôn.



Gelli Goch, Coed y Brenin

Awgrym defnyddiol

Yn ogystal â phibell ddŵr, pam na chadwch olchwr pŵer wrth law. Mae'n ddefnyddiol i bob math o bethau o amgylch y tŷ ond bydd eich beicwyr wrth eu boddau ag o. Peidiwch ag anghofio hefyd fod lleoli daliwr beiciau yn yr ardal olchi yn syniad gwych ac yn gadael i'r defnyddiwr olchi'r beic cyfan heb orfod gafael ynddo.

Opsiynau eraill

Os oes gennych sefydliad mwy megis maes gwersylla, gallech guddio'r ardal olchi'n daclus â ffens ond peidiwch ag anghofio gwneud yn siŵr ei bod yn hawdd dod o hyd iddi trwy osod arwydd amlwg. Mae busnesau bychain eraill wedi ceisio gwneud ardaloedd golchi i edrych yn well trwy adeiladu wal isel i ddiffinio'r ardal yn daclus. Does dim rhaid i chi wneud y naill beth na'r llall wrth gwrs, dim ond darparu pibell ddŵr a chwter. Ond mae'r llefydd hynny sydd wedi mynd rhyw ychydig ymhellach na hyn yn edrych cymaint gwell.



Awgrym defnyddiol – Byddwch yn gynaliadwy

Syniad arall yw codi tâl am y golchi trwy ddefnyddio peiriant derbyn darnau arian tebyg i'r rhai welwch chi wrth olchi car â llaw mewn modurdy. Gellid bwydo'r incwm yn ôl i fenter amgylcheddol leol gan hybu cynaladwyedd tra byddech yr un pryd yn rhesymoli defnydd y cyfenwad dŵr.

Pecyn trwsio mewn argyfwng

Mae damweiniau'n digwydd. A phan ddigwyddant, mae'n well bod yn barod. Mae'r rhan fwyaf o feicwyr yn dod â'u pecynnau eu hunain erbyn hyn, ond fel unrhyw un arall, weithiau byddant yn anghofio. Dylai pecynnau trwsio mewn argyfwng, fan leiaf, gynnwys lifers teiar, pecyn trwsio twll, iraid a phwmp. Gwnewch yn siŵr fod y pwmp yn addas ar gyfer y ddau fath o falf. Falfiau Presta a Schrader yw'r rhain, na fyddwch efallai wedi clywed amdanynt o'r blaen ond fe fyddwch yn gwybod sut maen nhw'n edrych yn sicr...



Caban Bryn Bettws, Parc Coedwig Afan




Caban Bryn Bettws, Parc Coedwig Afan

Falf Schraeder



Falf Presta



Cystal ag unrhyw beth

Bydd rhai o'r llefydd mwyaf yn ddigon ffodus i ddenu cynifer o feicwyr a cherddwyr, nes efallai y bydd ganddynt lond siop o offer i'w gwerthu.

Nid yw eraill mor ffodus ond mae'n arfer da i osod eich offer mewn storfa er enghraifft, fel y gall eich cwsmeriaid ddod o hyd iddynt yn hawdd (ac fel y gallwch chi sylwi'n hawdd os bydd rhywbeth yn mynd ar goll yn ddamweiniol!)



Gwersyll Fforest Cwmcarn

Eitemau defnyddiol eraill

Dylech hefyd ystyried gefail gymwysadwy, ac amrywiaeth o sbaneri (e.e. 10, 12, 14 ac 17 mm) sgrïwdreifers allen a phen croes, yn ogystal â phennau soced. Mae rhai llefydd hefyd wedi mynd yr ail filltir ac yn darparu clampiau beic wedi'u gosod ar wal. Mae hyn yn wych. Maent yn golygu gallu hongian y beic, a rhoi clamp arno i wneud y gwaith trwsio yn rhwydd, os ydynt yn gwybod beth i'w wneud. Mae beicwyr yn gwybod hyn fel arfer.



Coed Cae, Dolgellau



Gwersyll Fforest Cwmcarn

A man wearing a blue jacket, safety glasses, and a headlamp is working on a vehicle. He is looking down at his work with a focused expression.

Opsiynau eraill

Os na fedrwch hongian yr offer ar y wal yn daclus, yna byddai darparu detholiad o offer ar silff neu mewn bocs offer yn ddigon derbyniol. Mae bocsys offer parod ar gyfer beicwyr ar gael ar-lein gan nifer o gyflenwyr.

Awgrym defnyddiol – Y pecyn cludadwy

Efallai y bydddech eisiau cadw cyflenwad o becynnau offer mewn argyfwng cludadwy y gall beicwyr eu cario gyda nhw. Hefyd, pam na ofynnwch i'ch cwsmeriaid o dro i dro pa offer fyddai'n ddefnyddiol i chi eu cadw wrth law ar gyfer beicwyr eraill. Fel hyn, byddwch â gwybodaeth gyfredol o'r hyn sydd ei angen arnynt.



Cymorth Cyntaf

Weithiau, bydd cerddwyr yn cael pothelli, yn troi'u fferau, a beicwyr yn cael codwm. Pan fo hyn yn digwydd, mae angen i ni fod yn barod. Y llefydd y mae pobl yn aros yn aml yw'r cyntaf i glywed y gallai un o'u gwesteion fod wedi'u hanafu.

Ar ben hynny, mae arnom angen pecyn Cymorth Cyntaf wedi'i deilwra'n benodol i anghenion beicwyr a cherddwyr.



Gwersyll Fforest Cwmcarn

Cystal ag unrhyw beth

Mae damweiniau'n digwydd yn amlach mewn rhai llefydd. Nid yw hyn yn adlewyrchiad o'ch eiddo. Mae'n ymwneud yn bennaf â'ch lleoliad. Er enghraifft, os ydych wedi eich lleoli mewn ardal sydd ger llwybr beicio mynydd ar oriwaered, yna rydych yn debygol o weld nifer fwy nag arfer o ddamweiniau. O'r herwydd, mae angen i chi fod yn fwy parod nag arfer ar eu cyfer. Bydd lefel yr hyfforddiant cymorth cyntaf sydd ei angen a'r pecyn cymorth cyntaf yn adlewyrchu hyn.

Yn yr un modd, os ydych yn denu llawer o gerddwyr a cherddwyr mynydd sydd o ddifrif am eu camp gan eich bod wedi eich lleoli ger llwybr pellter hir, yna bydd angen i chi roi ystyriaeth i hyn wrth ddewis pecyn cymorth cyntaf. Mae'r esiamplau gorau o ddarparu cymorth cyntaf yn tueddu i fod yn ymyl llwybrau beicio mynydd ar oriwaered megis yng Nghwmcarn yn Ne Cymru a Snowbikers.com sydd yn gweithredu ger Coed y Brenin yng Nghanolbarth Cymru.



Coed Cae, Dolgellau

Opsiynau eraill

Mae pecynnau cymorth cyntaf yn amrywio mewn maint a phris o'r mwyaf sylfaenol i'r mwyaf cymhleth ac unwaith eto mae dewis eang ar gael ar y rhynggrwyd. Efallai, oherwydd eich lleoliad, na fydd arnoch ond angen pecyn sylfaenol. Dylai pecyn sylfaenol, fan leiaf, gynnwys:

- Plasteri, mewn amrywiaeth o feintiau a siapiau.
- Rhwymiad rhwylllog di-haint bach, canolig a mawr.
- O leiaf ddau rwywiad llygad di-haint.
- Rhwymyn trionglog.
- Rhwymyn crêp wedi'i rolïo.
- Pinnau cau.
- Menyg di-haint tafladwy.
- Gefel.
- Siswrn.
- Cadachau glanhau di alcohol.
- Tâp gludiog.
- Thermomedr, gorau oll os yw'n un ddigidol.
- Eli at frech ar y croen, megis hydrocortisone neu calendula.
- Eli neu chwistrell i leddfu brathiadau a phigiadau pryfed.
- Eli antiseptig.
- Tabledi neu chwistrell laciol i'r trwyn.
- Dŵr wedi'i ddistyllu, i lanhau anafiadau ac ar gyfer baddon llygad.

Peidiwch â phoeni fodd bynnag, gallwch brynu pecynnau llawn o'r rhan fwyaf o fferyllfeydd neu ar-lein. Y peth pwysig i'w gofio yw i wirio eich pecyn cymorth cyntaf yn gyson gan y gall pethau ddyddio'n eithaf sydyn. Hefyd, cadwch y pecyn mewn lle lled oer, sy'n sych ac yn ddiogel a chofiwch ddweud wrth eich staff ble mae'n cael ei gadw.

Awgrym defnyddiol – Ewch i weld beth mae eraill yn ei wneud

Bydd y rhan fwyaf o becynnau cymorth cyntaf a'r hyfforddiant y byddwch yn ei dderbyn yn addas ar gyfer amrywiaeth o anafiadau ac ar gyfer troi cymalau ond gofynnwch am gyngor gan Ambiwylans Sant Ioan neu'r hyn sy'n cyfateb iddi'n lleol a fydd yn fwy na pharod i helpu. Hefyd, ewch i weld sut mae busnesau eraill yn eich ardal yn darparu ar gyfer beicwyr a cherddwyr a pha fath o gymorth cyntaf y maent yn ei gynnig.



Bwyd – Y pethau angenrheidiol

*Llety wedi'i wasanaethu'n unig

Byddwch angen darparu:

1. Offer gwneud diodydd poeth ac oer (anogwn eich bod yn cynnig diod wrth iddynt gyrraedd)*.
2. Prydau bwyd min nos os nad oes cyfleusterau bwyta o fewn milltir*.
3. Pecynnau brecwast ar gael o 7.00 yb*.
4. Pecynnau cinio mewn llety wedi'i wasanaethu.
5. Darpariaeth ar gyfer archebu eitemau groser sylfaenol cyn cyrraedd mewn llety hunan ddarpar a meysydd carafannau, ar gyfer gwesteion sy'n cyrraedd heb gar.
6. Dylai gwersyllwyr gael cynnig diod boeth wrth gyrraedd (h.y. cyn neu tra byddant yn gosod eu pebyll) – mewn meysydd carafannau.
7. Manylion a chyfarwyddiadau am sut i gyrraedd y siop fwyd agosaf os nad oes un ar gael ar y safle. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog sydd â mynediad rhwydd ato a dylent hefyd gael eu dangos ger unrhyw fflyd hurio beiciau – mewn meysydd carafannau.
8. Darpariaeth, pe gofynnir amdani, ar gyfer archebu eitemau groser sylfaenol ymlaen llaw cyn cyrraedd ar gyfer gwesteion sy'n cyrraedd heb gar – mewn meysydd carafannau.

Awgrym defnyddiol

Pe byddai beicwyr eisiau brechdanau (ni fydd ar rai beicwyr eisiau gan eu bod yn dueddol o wlychu), lapiwch bob brechdan fesul un a labelu eu cynhwysion. Mae rhai beicwyr yn bwyta un frechdan ar y tro fel byrbryd felly maent yn gwerthfawrogi eich bod yn eu lapio fesul un.

Cystal ag unrhyw beth

Tanwydd yw bwyd. Mae bwyd lleol yn well tanwydd. Os ydych yn darparu prydau fin nos neu becynnau cinio yna ystyriwch ddefnyddio cynnyrch lleol. Mae rhai busnesau erbyn hyn yn troi oddi wrth frandiau rhyngwladol ac yn darparu bwydydd lleol tebyg mewn pecynnau bwyd er enghraifft. Fodd bynnag, os bydd gwestai eisiau Mars Bar, rhowch Mars Bar iddo. Yn y pendraw, dylech wastad ofyn ymlaen llaw beth fyddai beicwyr a cherddwyr yn ei hoffi yn eu pecynnau bwyd. Nid pawb sy'n hoffi cacennau cri neu bice ar y maen, ond mae'r rhai sydd, fel arfer yn dychwelyd am ragor.



Gwersyll Fforest Cwmcarn

Gwybodaeth – Y pethau angenrheidiol

Byddwch angen darparu:

1. Manylion y siopau hurio beiciau, y siopau trwsio beiciau a'r siopau nwyddau beic agosaf sydd ar gael i feicwyr.
2. Manylion y meddyg, y deintydd, yr ysbyty, y fferyllfeydd sydd ar agor trwy'r nos a'r milfeddygon (os ydych yn derbyn anifeiliaid anwes) agosaf.
3. Mapiau a llyfrau i fod ar gael i gyfeirio atynt ynglŷn â cherdded neu feicio yn yr ardal / manylion llwybrau a mudiadau beicio lleol a rhanbarthol.
4. Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus leol a pha gyfleusterau cludo beiciau sydd ar gael.
5. Manylion unrhyw gwmnïau cludo bagiau a chwmnïau tacsï sy'n gweithredu'n lleol.
6. Gwybodaeth am y tywydd yn yr ardal wedi ei harddangos yn amlwg ynghyd â rhifau ffôn i westeion eu galw am yr wybodaeth ddiweddaraf os oes angen.

7. Gwybodaeth am atyniadau lleol a digwyddiadau a/neu ddarparu rhif ffôn canolfan wybodaeth i dwristiaid a chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gyrraedd yno.
8. Mewn llety hunan ddarpar a meysydd carafannau, gwybodaeth am leoliad ac oriau agor y siopau agosaf, gan gynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gyrraedd yno.
9. Manylion y banc / peiriant arian, y blwch ffôn cyhoeddus, swyddfa'r post, y blwch postio a'r siopau nwyddau awyr agored agosaf.
10. Manylion wedi'u dangos ar gyfer gwasanaeth achub lleol, yn cynnwys nodi'r rhif ffôn 999 (112 o ffonau symudol). Dylai fod esboniad ar gyfer ymwelwyr o dramor y dylent ofyn am yr heddlu yn y man cyntaf. Hefyd dylid cynnwys rhifau ar gyfer y gwasanaeth achub mynydd a gwylwyr y glannau os yw'n berthnasol.
11. Manylion wedi'u dangos ynglŷn â'r Côt Cefn Gwlad.
12. Manylion bwytaï a thafarndai lleol sy'n cynnig bwyd.
13. Gwybodaeth am fusnesau eraill sy'n rhan o'r Cynllun Beicwyr a Cherddwyr.
14. Os ydych yn derbyn archebion gan grwpiau, dylai gwybodaeth fod ar gael iddynt am gyfleusterau storio, cyfleusterau bwyta / opsiynau, cofrestriadau grŵp, a bod gwybodaeth cyn cyrraedd wedi ei gasglu ganddynt a'i ddarparu iddynt.



Gwersyll Fforest Cwmcam

Cystal ag unrhyw beth

A ddylid rhoi'r holl wybodaeth yma mewn un man? Fe allech wneud hynny. Gallai gael ei roi mewn ffeil i westeion ym mhob un o'u hystafelloedd a gallai hefyd gael ei osod ar hysbysfwrdd. Un esiampl wych o arfer da yw i annog beicwyr a cherddwyr i lenwi ffurflen yn dweud wrthyh am ble y byddant yn anelu y diwrnod hwnnw, faint o'r gloch y byddant yn dychwelyd a beth yw eu rhif ffôn symudol. Mewn argyfwng, byddai'r wybodaeth hon yn amhrisiadwy.

Awgrym defnyddiol

Mae llawer o fusnesau yn paratoi eu llenyddiaeth eu hunain am deithiau ac ati. Gallai gael ei gyhoeddi ar-lein a'i e-bostio fel ffeil cyn iddynt gyrraedd fel y gall gwesteion gael mynediad at fanylion ar ffonau clyfar tra maent yn cerdded neu ar eu beiciau ar y gelltydd. Mae rhai eraill hyd yn oed yn eu lamineiddio ac yn eu dosbarthu am ddim. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan westeion, ac yn osgoi bod â thaflenni gwlyb.

Diolch i

Bob busnes sydd wedi caniatáu i ni eu holi, tynnu eu lluniau a siarad amdanynt. Maent i gyd wedi ymuno â chynllun achredu beicwyr a cherddwyr Croeso Cymru ac maent i gyd yn gwneud gwaith gwych ar gyfer y miloedd o feicwyr a cherddwyr sy'n ymweld â Chymru bob blwyddyn.

Rydych chi'n dda. Yn dda iawn.



I wneud cais, edrychwch ar y dogfennau meini prawf manwl sydd ar gael ar-lein, yna cwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais berthnasol gogyfer â'ch math chi o fusnes.

Cliciwch yma i wneud cais ar-lein

Os hoffech ddysgu rhagor am y cynllun hwn, neu am y cynllun graddio'n gyffredinol, cysylltwch â ni ar e-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk neu roi galwad ffôn i ni ar 0845 010 8020.